**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Deisebau

# Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau yng Nghymru

Chwefror 2012

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliadcymru.org**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Deisebau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8421
Ffacs: 029 2089 8021
E-bost: Pwyllgor.CCLLL@cymru.gov.uk

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2012
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Deisebau

# Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau yng Nghymru

Chwefror 2012

**Y Pwyllgor Deisebau**
Sefydlwyd y Pwyllgor Deisebau ar 15 Mehefin 2011. Ei rôl yw ystyried yr holl ddeisebau derbyniadwy a gyflwynir gan y cyhoedd. Rhaid i'r deisebau fod ar faterion y mae gan y Cynulliad y pŵer i weithredu arnynt. Mae'r broses ddeisebau yn galluogi'r cyhoedd i amlygu materion ac i ddylanwadu'n uniongyrchol ar waith y Cynulliad. Nodir ei swyddogaethau penodol yn Rheol Sefydlog 23.

**Aelodau cyfredol y Pwyllgor**



**William Powell (Cadeirydd)**
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
Canolbarth a Gorllewin Cymru



**Russell George**
Ceidwadwyr Cymreig
Sir Drefaldwyn



**Bethan Jenkins**
Plaid Cymru
Gorllewin De Cymru



**Joyce Watson**
Llafur Cymru
Canolbarth a Gorllewin Cymru

## Cynnwys


Argymhellion y Pwyllgor ..... 5
Cyflwyniad ..... 6
Mater heb ei ddatganoli ..... 6
Asesu risg ..... 7
Yr economi leol ..... 8
Gwybodaeth a chysylltiadau lleol ..... 9
Diogelwch ..... 10
Sail resymegol dros gau'r orsaf ..... 11
Erialau cyfathrebu ..... 11
Casgliadau ac argymhellion ..... 11
Atodiad A: Tystion ..... 13
Atodiad B: Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig ..... 14

## Argymhellion y Pwyllgor

Mae argymhellion y Pwyllgor i Lywodraeth Cymru i'w gweld isod, yn y drefn y maent yn ymddangos yn yr adroddiad hwn. Ewch i'r tudalennau perthnasol yn yr adroddiad i weld y dystiolaeth a'r casgliadau ategol:

**Argymhelliad 1.** Mae'r Pwyllgor, felly, yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cynnal asesiad risg a fydd yn nodi ac yn ceisio lliniaru unrhyw beryglon posibl i ymwelwyr, a phawb arall sy'n ymweld â'r arfordir at ddibenion hamdden, os bydd y cynigion i newid Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau yn cael eu derbyn. Mater i Lywodraeth y DU yw'r newidiadau arfaethedig i'r Asiantaeth, ond o ystyried effaith posibl y newidiadau hynny ar y rhai sy'n gweithio ac yn ymweld â thraethau Cymru, gallai asesiad risg annibynnol helpu naill ai i dawelu rhai o'r pryderon a amlygwyd yn yr adroddiad hwn neu i alluogi Llywodraeth Cymru i herio penderfyniad Llywodraeth y DU ar y mater hwn. (Tudalen 12)

**Argymhelliad 2.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn parhau i herio cynlluniau presennol Llywodraeth y DU i newid Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau, a fydd yn arwain at gau Gorsaf Gwylwyr y Glannau Abertawe. (Tudalen 12)

## Cyflwyniad

1. Ym mis Gorffennaf 2011, cyflwynwyd deiseb i'r Pwyllgor Deisebau a nododd:

> 'Rydym ni, sydd wedi llofnodi isod, yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i gynnal asesiadau risg annibynnol o'r effaith a gaiff cau Canolfannau Cydgysylltu Achub ar y Môr yn Aberdaugleddau a Chaergybi—ac israddio'r ganolfan yn Abertawe i weithredu yn ystod oriau golau dydd—ar ddiogelwch ymwelwyr â'r arfordir'.

2. Graham Warlow gyflwynodd y ddeiseb a chasglodd 293 o lofnodion. Nid yw cau gorsafoedd gwylwyr y glannau yn fater sydd wedi'i ddatganoli i Gymru. Fodd bynnag, gan nad yw'r ddeiseb yn herio'r penderfyniad ei hun ond, yn hytrach, yn galw ar y Cynulliad Cenedlaethol i annog Llywodraeth Cymru i gynnal asesiadau risg annibynnol, penderfynwyd y gellid ei derbyn.

3. Wrth i'r Pwyllgor Deisebau ystyried y ddeiseb, ystyriwyd nifer o faterion. Mae'r rhain wedi'u crynhoi yn yr adroddiad hwn.

## Mater heb ei ddatganoli

4. Ym mis Rhagfyr 2010, lansiodd Llywodraeth y DU ymgynghoriad ynghylch cynigion i foderneiddio Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau (yr Asiantaeth). Roedd disgwyl i'r ymgynghoriad ddod i ben fis Mawrth 2011, ond cafodd ei ymestyn tan fis Mai 2011. Ar ôl cyhoeddi'r cynigion, cyflwynwyd deiseb yn cynnwys 15,000 o lofnodion i'r Prif Weinidog a lansiodd Pwyllgor Trafnidiaeth Tŷ'r Cyffredin ymchwiliad.

5. Fel y nodwyd eisoes, Llywodraeth y DU oedd yn gyfrifol am ad-drefnu'r Asiantaeth gan nad yw'r cyfrifoldeb hwnnw wedi'i ddatganoli. Fodd bynnag, gan fod y ddeiseb yn galw am asesiad risg annibynnol, ysgrifennodd y Pwyllgor at y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth yn gofyn am ei barn am y mater.

6. Dywedodd y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth wrth y Pwyllgor ei bod yn rhannu pryderon y deisebwr nad oedd y cynigion hyn wedi'u hystyried yn ddigonol a'i bod yn teimlo y byddai cau'r orsaf yn Abertawe yn peryglu morwyr a phobl eraill a oedd yn defnyddio'r arfordir,

gan gynnwys ymwelwyr â'r ardal honno.[1] Dywedodd y Gweinidog, fodd bynnag:

> 'This is a non-devolved matter and responsibility for the safety of our coastal users lies with the MCA and the relevant local authorities. It is up to the UK Government to account for the consequences of their actions.'[2]

7. Yna, ysgrifennodd y Pwyllgor at y Gweinidog eto, yn galw ar Lywodraeth Cymru i gynnal asesiad risg annibynnol. Roedd ymateb y Gweinidog yn nodi'r glir nad oedd Llywodraeth Cymru yn teimlo y gallai gynnal asesiad o'r fath gan nad yw'r mater wedi'i ddatganoli.

**Asesu risg**

8. Cyhoeddodd yr Asiantaeth ei chynigion ar gyfer ad-drefnu ym mis Rhagfyr 2010 ond ni chyhoeddodd asesiadau risg tan fis Chwefror 2011. Ni chyhoeddwyd rhagor o asesiadau risg ers cyhoeddi'r cynigion diwygiedig a oedd yn cynnwys cau Gorsaf Gwylwyr y Glannau yn Abertawe.

9. Mae'r ddeiseb yn galw am asesiad risg annibynnol er mwyn ystyried y perygl i'r rhai sy'n ymweld â'r arfordir. Yn ystod sesiwn dystiolaeth a gynhaliwyd ar 1 Tachwedd 2011, dywedodd y prif ddeisbydd, Graham Warlow, nad oedd yn teimlo bod yr asesiadau risg a gyhoeddwyd yn gwbl gredadwy na'n gwbl ddibynadwy.[3]

10. Roedd Pwyllgor Dethol Trafnidiaeth San Steffan hefyd yn pryderu am asesiadau risg yr Asiantaeth. Yn ystod ei ymchwiliad, beirniadwyd yr Asiantaeth gan y Pwyllgor am beidio â chyhoeddi asesiadau risg yng nghyswllt y cynigion. Yn ôl adroddiad y Pwyllgor, a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2011 wedi i'r ymchwiliad i'r newidiadau arfaethedig i'r Asiantaeth ddod i ben, roedd rheolwyr yr Asiantaeth wedi gwneud camgymeriad mawr wrth beidio â chyhoeddi asesiad risg o'r cynlluniau a gyflwynwyd.'[4] Wedi hynny, cyhoeddodd yr Asiantaeth asesiadau risg newydd ochr yn ochr â'r cynigion diwygiedig a gyhoeddwyd lai na 6 wythnos ar ôl cwblhau'r ymgynghoriad, pan dderbyniwyd 1700 o ymatebion.

---

[1] Llythyr at y Pwyllgor Deisebau gan y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a
[2] Llythyr at y Pwyllgor Deisebau gan y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth, 19 Gorffennaf 2011
[3] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Deisebau 1 Tachwedd 2011, paragraff 61
[4] Pwyllgor Trafnidiaeth Tŷ'r Cyffredin – Chweched Adroddiad: The Coastguard, Emergency Towing Vessels and the Maritime Incident Response Group report, Mehefin 2011

11. Mae'r Pwyllgor Deisebau'n rhannu pryderon y deisebwyr a'r Pwyllgor Trafnidiaeth ac mae o'r farn ei bod yn hanfodol cynnal asesiadau risg trylwyr cyn cyflwyno unrhyw newidiadau i'r Asiantaeth.

**Yr economi leol**

12. Mae'r Pwyllgor Deisebau'n pryderu y bydd y newidiadau arfaethedig i'r Asiantaeth yn amharu ar economïau ardaloedd ar yr arfordir. Dywedodd Joyce Watson AC, un o aelodau'r Pwyllgor 'the impact will be evident on the risk that individuals might feel when they come to visit Wales to use the waterways…we have to look at the risk assessment…if people do not feel safe, the first thing they will do is walk away.'[5]

13. Dywedodd Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro:

> 'For visitors, the provision of an acceptable balance between experience, risk and safety is one of the 'givens' of a holiday in the UK and security and safety may in fact be important in deciding to holiday in Wales.'[6]

14. Nododd yr Awdurdod hefyd y pwyslais presennol ar sicrhau mynediad i'r arfordir sy'n tarddu o bolisi'r llywodraeth ac sydd wedi'i gysylltu'n benodol â'r gwaith o ddatblygu a hyrwyddo Llwybr Arfordir Cymru Gyfan.'[7]

15. Mae'r Asiantaeth yn cydnabod bod y rhai sy'n defnyddio ac yn ymweld â dyfroedd y DU yn cyfrannu llawer at yr economi. Yn ei dogfen ymgynghori, mae'r Asiantaeth yn nodi:

> 'The UK has more than 10,500 miles of coastline that is enjoyed by 200 million visitors a year. Our industries, shops and services depend on ships for 95 per cent of visible trade by weight, and the shipping industry contributes about £1m every hour to our economy.'[8]

16. O gofio hyd arfordir Cymru, dylid ystyried bod gweithgareddau ar draethau Cymru yn arbennig o bwysig i economi Cymru. Yn ôl y prif ddeisbydd:

> 'While going around petitioning and campaigning for the Save Swansea Coastguard campaign, we spoke to a number of surfers,

---

[5] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Deisebau 1 Tachwedd 2011, paragraff 64 a 74
[6] Llythyr gan Awdurod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro at y Pwyllgor Deisebau, 10 Awst 2011
[7] Llythyr gan Awdurod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro at y Pwyllgor Deisebau, 10 Awst 2011
[8] Ymgynghoriad ynghylch moderneiddio Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau, 2010

> windsurfers and kayakers and the people who own the shops in the Swansea and Gower peninsular area, and they were concerned, to be honest. The surfing tourism and the people who come camping on the weekends in the summer months are bringing the money in, and they were concerned about the thought that a local lifeboat could be speaking to someone with a strong east of Scotland accent on the radio to get search instructions. There is that concern on the part of the people who own small businesses in the area.'[9]

17. Gallai busnesau sydd eisoes yn ei chael yn anodd yn yr hinsawdd ariannol bresennol wynebu rhagor o broblemau pe bai Gorsaf Gwylwyr y Glannau Abertawe yn cau, gan y byddai hynny'n creu canfyddiad o berygl ychwanegol. Gallai asesiad risg annibynnol sy'n nodi ac yn ceisio lliniaru'r peryglon i'r rhai sy'n ymweld â'r arfordir helpu i dawelu pryderon lleol, neu i gryfhau'r galwadau i Lywodraeth y DU ailystyried ei chynigion.

**Gwybodaeth a chysylltiadau lleol**

18. Mae dogfen ymgynghori'r Asiantaeth yn egluro:

> 'Over time Coastguards in Coordination Centres study for and acquire specialist, professional qualifications covering Search Planning, Radio Communications and how to act in the role of Search Mission Coordinator.'[10]

19. Beirniadodd y prif ddeisbydd y datganiad hwn, gan ddweud nad yw'n nodi bod yn rhaid i Wylwyr y Glannau, o dan reoliadau Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau, gynnal archwiliad o Wybodaeth Leol bob dwy flynedd.[11] Roedd y prif ddeisbydd yn dadlau bod gwybodaeth leol yn hanfodol i waith Chwilio ac Achub. Dywedodd:

> 'Immediate local knowledge is vitally important to giving the swiftest possible response to any incident. Tourists are often unable to pronounce properly their location, especially if they are panicking. They are, however, always able to describe their surroundings.'[12]

20. Er bod yr Asiantaeth yn disgwyl y bydd Swyddogion Achub Gwylwyr y Glannau sy'n gweithio fel gwirfoddolwyr lleol, yn parhau i gynnig gwybodaeth leol, gellid dadlau y dylai bod gan Reolwr y gwaith Chwilio ac

---

[9] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Deisebau 1 Tachwedd 2011, paragraff 75
[10] Ymgynghoriad ynghylch moderneiddio Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau, 2010
[11] Local Knowledge Saves Lives: Save Milford Haven Coastguard, tudalen 5
[12] Local Knowledge Saves Lives: Save Milford Haven Coastguard, tudalen 6

Achub wybodaeth leol hefyd. Mae cynigion yr Asiantaeth, fodd bynnag, yn cynnwys darpariaeth i drosglwyddo galwadau'n ymwneud â digwyddiadau yng Nghymru i orsafoedd tawelach yn y DU pan fo angen. Gallai hynny olygu y bydd digwyddiadau yng Nghymru yn cael eu cydgysylltu yn Shetland neu Stornoway; felly gallai digwyddiadau ar arfodir Cymru gael eu cydgysylltu o leoliadau llawer pellach nag a ragwelwyd.[13] Gallai hyn achosi problemau, gyda phobl o bell yn cam-ynganu enwau Cymraeg, neu'n gwybod dim o gwbl amdanynt. Mae perygl hefyd na fyddai'r bobl hyn yn ymwybodol o enwau lleol 'answyddogol' am faeau neu greigiau, neu y byddai'n anoddach achub ymwelwyr sy'n anghyfarwydd ag enwau lleoliadau, ac sy'n gallu rhoi disgrifiad ohonynt yn unig.

21. Dywedodd y prif ddeisbydd wrth y Pwyllgor bod 25 y cant o'r staff yn Aberdaugleddau'n gweithio'n wirfoddol i'r bad achub neu i wasanaeth achub gwylwyr y glannau a bod y ffigur hwnnw'n debygol o fod ychydig yn uwch yn Aberatwe.[14] Mae gwylwyr y glannau mewn canolfannau cydgysylltu sydd hefyd yn gweithio fel gwirfoddolwyr yn y Gymuned Chwilio ac Achub ehangach yn meithrin perthynas waith agos â'r bobl y byddant yn eu defnyddio mewn argyfwng ac mae parch yn datblygu rhyngddynt. Mae gwirfoddolwyr yn credu bod y berthynas waith hon yn bwysig, yn enwedig yn ystod gwaith Chwilio ac Achub.[15] Mae angen ystyried sut y bydd perthynas o'r fath yn datblygu yn y dyfodol o fewn strwythur arfaethedig yr Asiantaeth, pan fydd lleoliad y canolfannau gweithredol yn ei gwneud yn amhosibl i staff barhau i weithio i'r Asiantaeth ac fel gwirfoddolwyr yn y gwasanaeth bad achub neu yng ngwasanaeth achub gwylwyr y glannau.

### Diogelwch

22. Yn ei bymthegfed adroddiad, 'Porthladdoedd Cymru', dywedodd y Pwyllgor Materion Cymreig:

> The profile of the potential threat to maritime infrastructure has been raised in recent months, as recognised by the UK Government's updated National Security Strategy. Ensuring the Welsh ports are secure depends on number of different aspects. These include: dedicated police and border agency staff; intelligence-sharing on the threat facing ports; co-operation from stakeholders such as the coast guard, the local community and the private sector; accurate information on passengers, crew and vessels entering the ports;

[13] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Deisebau 1 Tachwedd 2011, paragraff 67
[14] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Deisebau 1 Tachwedd 2011, paragraff 69
[15] Local Knowledge Saves Lives: Save Milford Haven Coastguard, tudalen 6

adequate resources for the authorities to respond to incidents at the ports; and the co-operation of the ports operators and customers. Each of these elements must be robust to ensure that Welsh ports are secure.[16]

23. Nid yw cynigion yr Asiantaeth yn cynnwys Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelwch. Gellid dadlau, fodd bynnag, y byddai cau'r Ganolfan Cydgysylltu Achub ar y Môr yn Abertawe yn amharu ar allu gwylwyr y glannau i sicrhau diogelwch porthladdoedd Cymru, yn enwedig y rhai sy'n gweithredu ym Môr Hafren.

**Sail resymegol dros gau'r orsaf**

24. Dywedodd y deisebwyr fod yr Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth wedi awgrymu bod gormod, neu ddigon, o swyddi yn yr Adran Drafnidiaeth yn Abertawe.'[17]

25. Mae'r Pwyllgor yn teimlo'n gryf y dylid seilio unrhyw gynigion i gyflwyno newidiadau ar anghenion gweithredol yr Asiantaeth yn hytrach nag ar nifer y swyddi sydd ar gael yn y sector cyhoeddus yng nghyffiniau'r Ganolfan Cydgysylltu Achub ar y Môr.

**Erialau cyfathrebu**

26. Roedd y deisebwyr yn pryderu am y diffyg manylion yn nogfen ymgynghori'r Asiantaeth yn ymwneud ag effeithiolrwydd y systemau cyfathrebu sydd ar waith a'r posibilrwydd na fyddai negeseuon yn ymwneud â thasg achub benodol yn cael eu trosglwyddo pe bai'r erial yn cael ei defnyddio eisoes gan orsaf arall. Efallai nad oedd yn briodol i'r ymgynghoriad fanylu cymaint yn y cyswllt hwn, ond mae'n parhau'n bryder i'r gwylwyr y glannau hynny a fydd yn dibynnu ar y system i drosglwyddo negeseuon mewn sefyllfaoedd a allai fod yn angheuol. Oherwydd hyn, dylai'r Asiantaeth ymdrin â'r pryderon hyn cyn gynted â phosibl.

**Casgliadau ac argymhellion**

27. Ar ôl ystyried y materion yn ymwneud â'r ddeiseb, mae'r Pwyllgor yn glir bod hwn yn fater pwysig iawn i'r rhai sy'n defnyddio ac yn ymweld â'n harfordir. Mae'n rhy fuan dweud a oes sail gadarn i'r pryderon a amlygwyd yn yr adroddiad hwn, ond o gofio bod yr adroddiadau risg wedi'u cyhoeddi ar gymaint o frys, mae'n ymddangos, sef llai na chwe wythnos ar ôl cael

[16] Pwyllgor Materion Cymreig Tŷ'r Cyffredin – y Pymthegfed Adroddiad: Porthladdoedd yng Nghymru, Tachwedd 2009
[17] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Deisebau, 1 Tachwedd 2011, paragraff 76

oddeutu 1700 o ymatebion i'r ymgynghoriad,  mae'r pryderon hyn yn ddealladwy.

28. Mae'r Pwyllgor wedi clywed gan nifer o unigolion a chyrff sy'n pryderu'n arw am y newidiadau arfaethedig yng ngwasanaeth gwylwyr y glannau. O ystyried y teimladau cryf ynghylch y mater hwn, mae'r Pwyllgor yn teimlo'i bod yn hanfodol i Lywodraeth Cymru barhau i herio penderfyniad Llywodraeth y DU.

**Mae'r Pwyllgor, felly, yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cynnal asesiad risg a fydd yn nodi ac yn ceisio lliniaru unrhyw beryglon posibl i ymwelwyr, a phawb arall sy'n ymweld â'r arfordir at ddibenion hamdden, os bydd y cynigion i newid Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau yn cael eu derbyn. Mater i Lywodraeth y DU yw'r newidiadau arfaethedig i'r Asiantaeth, ond o ystyried effaith posibl y newidiadau hynny ar y rhai sy'n gweithio ac yn ymweld â thraethau Cymru, gallai asesiad risg annibynnol helpu naill ai i dawelu rhai o'r pryderon a amlygwyd yn yr adroddiad hwn neu i alluogi Llywodraeth Cymru i herio penderfyniad Llywodraeth y DU ar y mater hwn.**

**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn parhau i herio cynlluniau presennol Llywodraeth y DU i newid Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau, a fydd yn arwain at gau Gorsaf Gwylwyr y Glannau Abertawe.**

**Atodiad A: Tystion**

Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth lafar gan y tystion a ganlyn ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiadau llawn o'r holl sesiynau tystiolaeth yn http://www.senedd.cynulliadcymru.org/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=1310

*01 Tachwedd 2011*

| | |
|---|---|
| Graham Warlow | Y Priff Ddeisebydd |
| Steve Matthews | Undeb PCS |

**Atodiad B: Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig**

Rhododd y bobl a'r sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Mae'r holl dystiolaeth ysgrifenedig i'w weld yn llawn yn http://www.senedd.cynulliadcymru.org/ieIssueDetails.aspx?IId=1287&Opt=3

*Sefydliad*

Graham Warlow, Prif Ddeisebwydd

Edwina Hart AC, Y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth, Llywodreth Cymru

Carl Sargeant AC, Y Gweiniodog Llywodraeth Leol a Chymunedau, Llywodreath Cymru

Mike Penning AS, Is-ysgrifennydd Seneddol Trafnidiaeth

Steve Mathews, Undeb y Gwasanaethau Cyhoeddus a Masnachol – PCS

Peter Cole, Uwch Ranbarth Twristiaeth

Greg Pycroft, Parciau Cenedlaethol Cymru

Tegryn Jones, Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Y Cynghorydd John Davies, Cyngor Sir Penfro

Alan Turner, Adran Dwristiaeth Cyngor Sir Penfro

Twristiaeth Sir Benfro

Y Cynghorydd Chris Holley, Cyngor Sir Abertawe

Steve Hopkins, Canolfan Groeso Abertawe